

DAFYDD BENWYN (ail hanner yr 16eg ganrif), un o feirdd Morgannwg

Enw: Dafydd Benwyn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: un o feirdd Morgannwg
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Griffith John Williams

Dywed ei gyfoeswr, [Sils ap Siôn](#), mai gwr o Langeinwyr ydoedd. Ei athro barddol ydoedd [Rhisiart Iorwerth](#) o Langynwyd, mab [Iorwerth Fynglwyd](#). Ceir peth o'i waith yn ei law ef ei hun yn Llsgr. Caerdydd 10 ac yn [Llanstephan MS 164](#), ac y mae gennym ddau gasgliad mawr o'i awdlau a'i gywyddau, y naill yn Llsgr. Caerdydd 2 (277), a'r llall yn Llsgr. Coleg Iesu 13. Ef yw'r mwyaf toreithiog o feirdd Morgannwg, a chanodd gerddi o fawl i'r rhan fwyaf o deuluoedd bonheddig y sir ac i uchelwyr Gwent. Er ei fod yn ddisgybl i [Risiart Iorwerth](#) (a hefyd i [Lewis Morgannwg](#), efallai), ac er iddo etifeddu dysg yr hen benceirddiaid, canu cyffredin, ystrydebol, a geir ganddo. Nid oes dim yn dangos yn well y dirywiad a fu ym Morgannwg yn ail hanner yr 16eg ganrif na chymharu ei awdlau a'i gywyddau ef â gwaith [Lewis Morgannwg](#) a [Risiart Iorwerth](#). Er hynny, y maent yn bwysig am ddau reswm. Yn gyntaf, cynhwysant achau llawer iawn o deuluoedd Gwent a Morgannwg. Ac yn ail, y maent y rhoddi inni ffurfiau Cymraeg enwau lleoedd yn y parthau hynny. Cyhoeddwyd detholiad bychan ohonynt gan John Kyrle Fletcher yn 1909, *The Gwentian Poems of Dafydd Benwyn*. Cyhoeddwyd cywyddau eraill gan '[Cadrawd](#)' yn [Cyfaill yr Aelwyd](#).

Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Ffynonellau

Hopkin-James a T. C. Evans, *Hen Gwndidau, Carolau, a Chywyddau* (Bangor 1910), 271-3

D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea 1925), 527-32

G. J. Williams, *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (1926), 123-4

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 75-94, 124

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Dafydd Benwyn](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13127762](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

